# SL(5)594 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"), sy'n gosod gofynion ar bobl sy'n dod i Gymru ar ôl iddynt fod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bobl sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod a bennir yn unol â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, sef 14 diwrnod ar hyn o bryd, yn dechrau gyda'r diwrnod yr oedd y person ddiwethaf mewn gwlad neu diriogaeth heb ei hesemptio. Mae'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae rhai categorïau o bobl wedi'u hesemptio rhag gorfod cydymffurfio. Nid yw'n ofynnol i bobl sy'n dod i mewn i Gymru ynysu ar ôl bod yn un neu fwy o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae Rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i ychwanegu Brunei a Malaysia at y rhestr 3 o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u hesemptio.

Mae Rheoliad 4 yn tynnu Andorra, y Bahamas, a Gwlad Belg oddi ar y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u hesemptio.

Mae Rheoliadau 3 a 5 yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn perthynas â newid statws y gwledydd hyn. Mae'r rheoliadau hyn yn mynd i'r afael ag amheuaeth bosibl o ran effaith y diwygiadau a wneir gan reoliadau 2 a 4 o'r Rheoliadau hyn ar weithrediad y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

## Gweithdrefn

Negyddol

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Daeth y Rheoliadau hyn i rym y diwrnod cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Mae hyn hefyd yn golygu bod y rheol 21 diwrnod yn cael ei thorri (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod basio rhwng y dyddiad gosod offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym). Rydym yn nodi'r esboniad a gafwyd gan Rebecca Evans, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd ar 6 Awst 2020, sef:

*"Mae'r Rheoliadau a wneir heddiw yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ymhellach i ychwanegu'r gwledydd a/neu diriogaethau a ganlyn at y rhestr o wledydd sydd wedi'u heithrio:*

- *Gwlad Belg;*
- *y Bahamas;*
- *Andorra.*

*Mae'r Rheoliadau hefyd yn ychwanegu'r gwledydd a ganlyn at y rhestr o wledydd a thiriogaethau eithriedig:*

- *Brunei;*
- *Malaysia.*

*Mae'r Rheoliadau'n gwneud y newidiadau hyn oherwydd y newidiadau a nodwyd mewn risg i iechyd y cyhoedd yn sgil cyrraedd o'r gwledydd hynny.*

*Felly, mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod, a'u dod i rym cyn eu gosod, yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro, o ystyried bygythiad difrifol ac uniongyrchol y coronfeirws a'r angen am ymateb ar frys o ran iechyd y cyhoedd, nad oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn esbonio na fu asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar frys i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid ymgysylltiad o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol o ran hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewropeaidd; mae Llywodraeth Cymru o'r farn eu bod yn gyfiawn at y diben o atal lledaenu afiechydon heintus a/neu caniateir ymyrraeth ar y sail eu bod yn ceisio nod cyfreithlon, sef amddiffyn iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**11 Awst 2020**